# Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 1 Awst 2018 - 31 Gorffennaf 2019

**Paratowyd yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

**Nia Besley / Emily Hammett**
**Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg**

**IONAWR 2020**

**CYNNWYS**


1. Cyflwyniad

2. Strwythur adrodd ynghylch y Gymraeg

3. Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

4. Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

5. Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

6. Monitro cydymffurfiaeth

7. Cwynion

8. Sgiliau Cymraeg staff

9. Hyfforddiant

10. Recriwtio i swyddi gwag

11. Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau pellach

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Abertawe bellach yn gweithredu'r Safonau'n llawn. Derbyniwyd ei hysbysiad cydymffurfio terfynol oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2017, a amlinellodd ddyletswydd y Brifysgol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyhoeddwyd hysbysiad cydymffurfio diwygiedig ym mis Gorffennaf 2018 yn sgil cyflwyno her ffurfiol i'r Comisiynydd mewn perthynas â naw Safon.

Ym mis Mawrth 2019 cyflwynodd y Brifysgol ddogfen herio bellach, ac mae hysbysiad cydymffurfio cyfredol y Brifysgol (Mehefin 2019) yn cynnwys amrywiadau ar gyfer y ddwy Safon a heriwyd.

## 2. Strwythur adrodd ar y Gymraeg

Cadeirir **Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg** gan yr Athro Elwen Evans CF, Pennaeth Ysgol y Gyfraith Hillary Clinton. Rôl y Pwyllgor yw datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn ymgynnull unwaith bob tymor, ac yn adrodd i Senedd y Brifysgol. Mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd er mwyn adrodd i'w aelodau, gan adrodd ar faterion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, yn enwedig y rhai hynny sy'n berthnasol i staff academaidd.

Rôl **Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg** yn y Brifysgol yw hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus a chefnogi a monitro gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Rhennir y rôl gan ddwy aelod rhan-amser o staff, sef Nia Besley ac Emily Hammett (yn cyfateb a 1.1 aelod o staff llawn amser). Ers haf 2018 cânt eu cynorthwyo ddau ddiwrnod bob wythnos gan Gynorthwyydd Cydymffurfiaeth, Lisa Hughes. Mae'r tair yn rhan o dîm Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth ehangach y Brifysgol, sy'n rhan o Swyddfa'r Is-ganghellor.

Mae **Academi Hywel Teifi** (o dan y Cyfarwyddwr, Dr. Gwenno Ffrancon) yn arwain y gwaith o ddatblygu a chefnogi darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, gan gyd-weithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Am y flwyddyn gyntaf eleni, etholwyd **Swyddog Materion Cymreig llawn amser** yn Undeb y Myfyrwyr. Mae Megan Colbourne wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddogion Polisi ac Academi Hywel Teifi i hyrwyddo hawliau myfyrwyr ac i wella cyfleoedd Cymraeg i fyfyrwyr,

### 3. Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau i hyrwyddo, addysgu a monitro cydymffurfiaeth mewn amryw ffyrdd: dulliau e-gyfathrebu mewnol amrywiol, sesiynau sefydlu staff newydd (sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg), cymorthfeydd pwrpasol, hyfforddiant penodol. Gweithir hefyd gyda chorff y myfyrwyr i bwysleisio eu hawliau.

Mae'r egwyddorion cyffredinol canlynol yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (gan gyfeirio at y gweithgareddau perthnasol a restrir ym mharagraff 31 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017):

- Gofynnir am ddewis iaith a sgiliau Cymraeg myfyrwyr pan fyddant yn gwneud cais i astudio yn y Brifysgol, ac eto wrth gofrestru. Cofnodir hyn yn y system cofnod myfyrwyr ac mae i'w weld yn glir ar broffil pob myfyriwr gan unrhyw aelod staff sydd â mynediad i'r system honno. Gall myfyrwyr newid y wybodaeth drostyn nhw eu hunain unrhyw bryd.
- Cyfathrebir yn ddwyieithog wrth gysylltu â mwy nag un myfyriwr (ac eithrio cynnwys cwrs academaidd penodol, oni bai mai cwrs cyfrwng Cymraeg ydyw).
- Wrth gyfathrebu â myfyriwr unigol, bydd yr aelod staff yn gwirio'r dewis iaith ar gofnod y myfyriwr.
- Cyfathrebir yn ddwyieithog â'r cyhoedd, ac mae gwybodaeth ysgrifenedig, electronig, neu wybodaeth ar y wefan neu ar arwyddion, yn ddwyieithog, oni bai y gwyddys dewis iaith yr unigolyn neu'r grŵp o unigolion.
- Ymatebir yn y Gymraeg i unrhyw ohebiaeth neu gyfathrebu a dderbynnir yn y Gymraeg, heb oedi ychwanegol.
- Mae prif gyfrifon corfforaethol y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, yn ogystal â phrif gyfrif pob coleg neu uned gwasanaethau proffesiynol perthnasol.
- Hyrwyddir ymgyrch hawliau Cymraeg myfyrwyr, 'Mae gen i hawl', a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg gydol y flwyddyn, yn arbennig ar

adegau penodol o'r flwyddyn (e.e. yn ystod wythnos y glas, diwrnodau agored ac ati).
- Darperir gwasanaeth Cymraeg llawn ar bob derbynfa berthnasol a restrir yn yr hysbysiad cydymffurfio, yn ogystal ag ar y prif switsfwrdd ac ar linell ffôn MyUniHub.
- Cynghorir pob derbynfa arall, a'r rhai hynny sy'n ateb galwadau i rifau ffôn adrannol, i nodi siaradwyr Cymraeg a fyddai'n gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg yn ôl yr angen, neu os nad oes opsiynau eraill, i fod yn ymwybodol bod siaradwyr Cymraeg ar y prif switsfwrdd/prif dderbynfeydd, ar gyfer aelodau'r cyhoedd, neu yn MyUniHub (ffôn a derbynfa) ar gyfer myfyrwyr.

Er mwyn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol hyn, mae'r tîm cyfieithu mewnol wedi cael ei gryfhau yn ystod y 12 mis diwethaf, drwy gyflwyno dau gyfieithydd llawn-amser newydd a chreu uwch-rôl newydd, sef Rheolwr Cyfieithu Cymraeg. Mae cyfanswm o saith o weithwyr yn y tîm cyfieithu, sy'n gweithio'r hyn sy'n gyfwerth ag oddeutu chwech gweithiwr llawn amser.

## 4. Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

Mae pob polisi a strategaeth newydd yn destun prosesau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ("EIA"). Mae adran ynglŷn â'r Gymraeg ar bob ffurflen EIA. Mae astudiaethau achos wedi'u creu er mwyn cynorthwyo'r broses o ystyried yn llawn oblygiadau o safbwynt y Gymraeg. Mae tîm Cydraddoldeb y Brifysgol yn cydweithio â Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg i ddadansoddi ffurflenni EIA drafft fel y gellir ymyrryd yn gynnar yn y broses o benderfynu, yn ôl yr angen. Mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn cadw cofnod o'r holl asesiadau sydd wedi'u cwblhau.

## 5. Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â phroses recriwtio a chyflogaeth y Brifysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae staff yn gallu nodi eu dewis iaith ar y system adnoddau dynol, ABW, a chaiff y cofnod hwn ei wirio wrth ohebu gyda staff.

Mae pob polisi adnoddau dynol perthnasol ar gael yn ddwyieithog ar y fewnrwyd.

Darperir cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ar unrhyw lefel (gyda chymorth canolfan Dysgu Cymraeg Bae Abertawe sydd wedi'i lleoli ar gampws Singleton). Mae cyfleoedd anffurfiol yn cael eu creu hefyd i staff ddod ynghyd i siarad Cymraeg (croesewir pob lefel).

## 6. Monitro cydymffurfiaeth

Mae tîm cydymffurfiaeth y Gymraeg yn cynnal fframwaith monitro cydymffurfiaeth sy'n cynnwys hunan-fonitro (gwirfoddol ar hyn o bryd) ar gyfer pob coleg ac adran gwasanaethau proffesiynol, yn ogystal â rhaglen o fonitro ar hap gan dîm cydymffurfiaeth y Gymraeg.

## 7. Cwynion

Cyflwynwyd un gŵyn i'r Brifysgol yn unol â gweithdrefn ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg y Brifysgol, ym mis Ebrill 2019. Ymatebwyd i'r gŵyn hon - ynglŷn â'r broses o recriwtio myfyrwyr llysgennad - yn unol â'r weithdrefn honno.

Cafodd yr un gŵyn ei chyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, sydd wedi ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa.

## 8. Sgiliau Cymraeg staff

Gofynnir pob ymgeisydd swydd am ei sgiliau Cymraeg, a chaiff y wybodaeth hon ei bwydo i mewn i'r system adnoddau dynol os caiff yr unigolyn ei benodi. Mae modd i aelodau staff ddiweddaru eu sgiliau Cymraeg drwy ddull hunan-wasanaeth yn y system adnoddau dynol, ac fe'i hatgoffir i wneud hyn yn flynyddol. Rydym hefyd yn annog staff i ailystyried y wybodaeth hon wrth wella eu sgiliau Cymraeg.

Roedd sgiliau Cymraeg staff ar 31 Gorffennaf 2019 fel a ganlyn:

**Staff gweinyddol (Cyfanswm 2219)**

| | Darllen | Ysgrifennu | Siarad | Deall |
|---|---|---|---|---|
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 43 | 46 | 43 | 38 |
| **Ddim o gwbl** | 1131 | 1315 | 1089 | 945 |
| **Ychydig** | 636 | 495 | 697 | 774 |
| **Eithaf da** | 108 | 109 | 86 | 137 |
| **Rhugl** | 175 | 128 | 178 | 199 |
| **Dim data** | 126 | 126 | 126 | 126 |

**Staff academaidd (Cyfanswm 1911)**

| | Darllen | Ysgrifennu | Siarad | Deall |
|---|---|---|---|---|
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 82 | 83 | 80 | 82 |
| **Ddim o gwbl** | 1131 | 1243 | 1118 | 1039 |
| **Ychydig** | 342 | 255 | 365 | 394 |
| **Eithaf da** | 66 | 59 | 56 | 100 |
| **Rhugl** | 171 | 152 | 174 | 176 |
| **Dim data** | 119 | 119 | 118 | 120 |

## 9. Hyfforddiant

Yn ogystal â'r ystod eang o gyrsiau a gynigir gan Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe ar gampysau'r Brifysgol ac yn y gymuned, mae swyddfa cydymffurfiaeth y Gymraeg yn cynnig cyrsiau penodol i staff: cwrs "cyfarch"

(sef gwers Cymraeg sylfaenol 10-awr), cwrs "graenus" (cwrs gloywi iaith 20-awr i siaradwyr rhugl/bron yn rhugl) a chwrs awr-o-hyd sy'n manylu ar ofynion Safonau'r Gymraeg.

Y tu hwnt i'r sesiynau swyddogol, caiff sesiynau ymwybyddiaeth ac iaith hefyd eu cynnal mewn modd llai ffurfiol yn ôl y galw.

Mae niferoedd y staff a gyflawnodd yr hyfforddiant hyn fel a ganlyn:

**Cwrs "cyfarch": 55**
**Cwrs "graenus": 17**
**Cwrs ymwybyddiaeth Safonau'r Gymraeg: 11**

Mae'n werth nodi, yn enwedig o safbwynt y cwrs cyfarch, bod llai na hanner y bobl a gofrestrodd ar y cwrs (113) wedi ei gyflawni. Mae hyn yn awgrymu bod awydd i dysgu Cymraeg, ond nad yw'n ymarferol am sawl rheswm. Eir ati yn y flwyddyn ganlynol i gynnig dulliau amgen o ddysgu Cymraeg i staff (e.e. ar lein, cyrsiau byrrach ac ati).

Bu'n rhaid gohirio dau gwrs ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg oherwydd diffyg niferoedd. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa adeg cyflwyno'r Safonau, pan yr oedd llawer o bobl yn mynychu cyrsiau. Mae hyn yn awgrymu bod staff yn ymwybodol o ofynion o'r Safonau erbyn hyn ac y dylid ystyried addasu dulliau cyfathrebu yn hyn o beth (e.e. teilwra hyfforddiant i dimau penodol, hyfforddiant ar lein).

Dim ond dau aelod staff a fethodd â chyflawni'r cwrs Cymraeg graenus. Yn wir, mae nifer o'r rhai a fynychodd y cwrs wedi parhau â chwrs graenus ychwanegol gyda Dysgu Cymraeg Bae Ardal Abertawe.

## 10. Recriwtio i swyddi gwag

Yn ystod y cyfnod dan sylw, hysbysebwyd y swyddi canlynol fel rhai lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y swyddi a gafodd eu hysbysebu yn ystod y cyfnod dan sylw: | 626 |
| Cyfanswm y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' a gafodd eu hysbysebu: | 37 |
| Cyfanswm y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' a gafodd eu llenwi: | 20 |
| Cyfanswm y swyddi 'Cymraeg yn ddymunol' a gafodd eu hysbysebu: | 589 |
| Cyfanswm y swyddi 'Cymraeg yn ddymunol' a gafodd eu llenwi: | 407 |

## 11. Manylion y cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg ar gael ar y dudalen ganlynol:

https://www.abertawe.ac.uk/safonaur-Gymraeg

Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg:

E-bost: swyddfaiaithGymraeg@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 606743